



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Llandudoch
Llandudoch
Aberteifi
Sir Benfro
SA43 3ET**

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2013

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 28/08/2013

Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Llandudoch wedi ei lleoli ym mhentref Llandudoch tua milltir o dref Aberteifi. Mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal fel un nad yw'n llewyrchus nac ychwaith o dan anfantais economaidd. Mae gan 7% o ddisgyblion yr hawl i dderbyn prydu bwyd yn rhad ac am ddim sy'n is na'r ffigwr sirol a chenedlaethol. Mae'r ffigwr hwn wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diweddar.

Mae 115 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, yn cynnwys 25 o blant meithrin rhan-amser. Addysgir y disgyblion mewn pedwar dosbarth o oed cymysg gan bedwar athro amser llawn a thri athro rhan-amser. Mae gan ryw 18% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, yn cynnwys nifer fach o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a'r dysgu ac anelir at sicrhau bod pob disgybl yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Saesneg yw'r brif iaith yn y cartref i 88% o'r disgyblion. Mae ychydig iawn o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Medi 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llandudoch yn 2012-2013 yw £3,980. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Benfro yw £5,870 a'r lleiafswm yw £3,138. Mae Ysgol Llandudoch yn safle 17eg o'r 61 ysgol gynradd yn Sir Benfro o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod y disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol;
- bod yr ysgol yn llwyddo i ddatblygu medrau Cymraeg y disgyblion o oed cynnar;
- bod yr athrawon yn darparu amrediad o brofiadau dysgu diddorol o fewn a thu allan i'r ysgol;
- bod yr addysgu yn dda ar y cyfan; a
- bod yr ysgol yn gymuned hapus a gofalgarg gydag ethos croesawgar.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer symud yr ysgol ymlaen;
- bod tîm o staff addysgu a chynnal gweithgar;
- bod y gweithdrefnau hunanarfarnu yn adnabod a blaenoriaethu meysydd priodol i'w gwella;
- bod gweithdrefnau effeithiol yn cael eu rhoi ar waith sy'n gwella safonau;
- bod rheolaeth gwariant a monitro cyllid yn effeithiol iawn; a
- bod y partneriaethau cryf gyda'r corff llywodraethol, rhieni a phartneriaid eraill yn dylanwadu'n adeiladol ar waith yr ysgol.

Argymhellion

- A1 Gwella cyflawniad y disgyblion mwy galluog ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2
- A2 Sicrhau bod y cynllunio yn effeithiol ar gyfer ymestyn medrau'r disgyblion yn gyson ar draws yr ysgol
- A3 Datblygu ymhellach asesu ar gyfer dysgu a rôl y disgyblion yn y broses
- A4 Monitro deilliannau cynllun datblygu'r ysgol i sicrhau eu bod yn dylanwadu'n llawn ar ansawdd y ddarpariaeth a chodi safonau

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwranddo'n dda. Gallant adalw dysgu blaenorol yn effeithiol, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol yn eu gwaith. Maent yn cyfathrebu'n naturiol ar lafar yn y Gymraeg ac yn defnyddio ystod briodol o eirfa pan fyddant yn trafod eu gwaith mewn sefyllfaoedd gwahanol. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n dda yn gynnar. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod yn rhydd gan fynegi eu syniadau yn glir yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Gall y mwyafrif sgwrsio am eu hoff gymeriadau a digwyddiadau yn eu llyfrau gyda dealltwriaeth dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr annibynnol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gallant drafod cynnwys eu deunydd ddarllen gan fynegi barn am eu hoff awduron yn hyderus. Gwna rhan fwyaf y disgyblion ddefnydd effeithiol o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth o lyfrau ac oddi ar wefannau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol i ystod o ddibenion gan ddangos dealltwriaeth briodol o atalnodi sylfaenol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau yn y Gymraeg a'r Saesneg i safon dda. Maent yn sillafu ac yn atalnodi yn gywir ar y cyfan. Er hyn, nid yw'r disgyblion yn gyffredinol yn cynhyrchu digon o ddarnau ysgrifennu estynedig ar draws y pynciau. Mae safon llawysgrifen a chyflwyniad gwaith ysgrifenedig mwyafrif y disgyblion yn dda.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a'u medrau ymchwilio a datrys problemau yn effeithiol mewn agweddau ar eu gwaith. Fodd bynnag, nid ydynt yn ymestyn eu medrau rhif a'u medrau ysgrifennu creadigol yn gyson ar draws y cwricwlwm.

Yn asesiadau 2012 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwylidig, sef deilliant 5, mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Roedd canlyniad datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth disgyblion yn is na'r cyfartaleddau. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim yng Nghymru, roedd perfformiad yr ysgol yn ei gosod ymhlith y 50% isaf.

Yn asesiadau 2012 ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwylidig, sef lefel 4, mewn Cymraeg a Saesneg yn uwch na

chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth roedd yn uwch na chyfartaledd Cymru ond yn is na chyfartaledd y teulu. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol ychydig yn is na'r canolrif ac yn ei gosod ymhlith y 50% isaf. Mae canlyniadau'r disgyblion ar draws y pynciau wedi bod yn anwastad dros y tair blynedd flaenorol ond yn dangos tuedd ar i fyny.

Yn 2012, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni deilliant 6 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a lefel 5 ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg. Nid oes patrwm cyson yn y gwahaniaeth rhwng canlyniadau bechgyn a merched er bod amrywiaethau ar draws y pynciau.

Ar draws y dosbarthiadau, mae craffu ar waith cyfredol y disgyblion yn dangos bod y disgyblion yn cyflawni safonau da yn gyffredinol o gymharu â'u hoed a lefel eu datblygiad. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni eu targedau.

Lles: Da

Mae'r disgyblion i gyd yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae ganddynt wybodaeth gadarn ac agweddau positif at fyw a bwyta'n iach, ac o werth ymarfer y corff a ffitrwydd. Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Maent yn frwdfrydig ac yn gweithio'n gynhyrchiol ag eraill o fewn eu grwpiau. Mae gallu mwyafrif y disgyblion i weithio'n annibynnol yn datblygu'n effeithiol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol. Mae aelodau o'r cyngor ysgol a'r swyddogion yn cyfrannu'n dda at benderfyniadau ar ystod o faterion megis sefydlu troli ffrwythau a phrynu bariau symudol i amgylchu darnau o'r lle chwarae ar gyfer gemau.

Mae'r disgyblion yn gwneud cyfraniad da i fywyd y gymdeithas leol ac yn elwa o'r cysylltiadau gyda nifer o sefydliadau, asiantaethau, busnesau ac unigolion. Maent yn datblygu amrediad o fedrau cymdeithasol sy'n eu paratoi'n effeithiol ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol.

O'u cymharu ag ysgolion tebyg, mae lefelau presenoldeb disgyblion dros y tair blynedd diwethaf yn gosod yr ysgol yn y 50% isaf. Trwy ymdrechion yr ysgol a chydweithrediad y rhieni, mae lefelau presenoldeb yn codi'n gyson. Mae prydlondeb y disgyblion yn dda.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n diwallu anghenion rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn cwrdd â gofynion statudol y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae defnydd effeithiol o ymwelwyr ac ymweliadau niferus yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion.

Mae cynllun priodol i ddatblygu medrau'r disgyblion mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth effeithiol i hybu medrau llythrennedd ac mae'n cynllunio'r defnydd o adnoddau yn dda i ddatblygu medrau TGCh y disgyblion. Er hyn, nid yw'r cynllunio tymor byr yn sicrhau bod y disgyblion yn ymestyn eu medrau yn gyson, yn arbennig y disgyblion mwy abl.

Mae pwyslais cryf yr ysgol ar ddatblygu medrau llythrennedd Cymraeg yn galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd da. Mae'r dimensiwn Cymreig yn cael ei integreiddio'n llwyddiannus i agweddau ar y cwricwlwm. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd amrywiol trwy waith trawsgwricwlaidd diddorol, clybiau, eisteddfodau a gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol i ddysgu am eu hardal a diwylliant Cymru.

Mae defnydd adeiladol o gyfleoedd ar draws y cwricwlwm, prosiectau penodol a diwrnodau rhyngwladol yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u rôl fel aelodau o gymuned ehangach. Mae darpariaeth briodol ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy trwy brosiectau megis 'Cadw'r Amgylchedd yn Lân' a drefnwyd ar y cyd gyda'r cyngor lleol.

Addysgu: Da

Mae gan yr athrawon wybodaeth gadarn am y cwricwlwm ac maent yn cynllunio'u gwersi yn ofalus, gydag amcanion dysgu clir. Ar draws yr ysgol, mae defnydd da o adnoddau gan gynnwys offer TGCh i gynorthwyo'r dysgu a'r addysgu. Gwna'r cymorthyddion dysgu gyfraniad gwerthfawr yn yr ystafell ddosbarth ac mewn ystod o weithgareddau eraill ar draws yr ysgol.

Yn y rhan fwyaf o sesiynau mae defnydd effeithiol o ystod o arddulliau addysgu yn sbarduno a chynnal diddordeb y disgyblion. Mae ffocws clir ar adeiladu ar waith blaenorol, holi a rhyngweithio da a chyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion gymryd rôl weithredol yn eu dysgu.

Yn yr ychydig sesiynau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae cyflwyniadau hir a threfniadaeth anwastad yn ymyrryd ar rediad y wers a chyfranogiad y disgyblion. Nid yw'r gweithgareddau bob amser yn cynnig her ddigonol i ymestyn y disgyblion mwy abl.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r wybodaeth a geir yn cael ei dadansoddi a'i defnyddio'n effeithiol i fonitro cynnydd a darparu cymorth ychwanegol i'r disgyblion yn ôl y galw.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon wedi ymgorffori rhai strategaethau asesu ar gyfer dysgu effeithiol yn eu harfer yn yr ystafell ddosbarth. Lle caiff y rhain eu defnyddio'n gyson, mae'r disgyblion yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain. Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd ond nid yw'r adborth a ddarperir bob amser o gymorth iddynt adnabod y camau nesaf i'w cymryd i wella safon eu gwaith.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys gwybodaeth glir am gynnydd pob plentyn unigol.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar ac mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae ystod eang o fentrau priodol sy'n annog bwyta'n iach ac ymarfer corff rheolaidd.

Mae'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Mae ffocws llwyddiannus ar ddatblygu gwerthoedd megis gofal, chwarae teg a pharch trwy addysg bersonol a chymdeithasol, gwaith trawsgwricwlaidd ac addoli ar y cyd.

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu ac nid ydynt yn destun pryder. Mae arweiniad clir i'r staff ac maent yn ymwybodol o'r gofynion.

Mae'r staff yn dynodi anghenion penodol disgyblion yn gynnar ac yn darparu rhwydwaith o weithgareddau cefnogi sy'n dylanwadu'n effeithiol ar gyflawniad, agweddau a chynnydd y disgyblion. Mae'r cynlluniau addysgol unigol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddarau i sicrhau bod anghenion dysgu'n cael eu bodloni. Mae cydweithio agos rhwng yr ysgol ac asiantaethau allanol, megis y seicolegydd addysg, therapydd iaith a lleferydd a swyddogion cefnogi disgyblion, i ddarparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion yn ôl y galw.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol sy'n cynnig amgylchedd diogel a chroesawgar i'r holl ddisgyblion. Mae polisiau a gweithdrefnau priodol yn sicrhau mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth ac yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol.

Mae'r ystod ardaloedd dysgu yn darparu cyfleusterau ac amgylchedd symbylol sy'n darparu'n dda ar gyfer anghenion y disgyblion. Mae'r holl gyfleusterau yn cael eu defnyddio'n bwrpasol ac yn hygyrch i'r disgyblion, staff ac ymwelwyr. Mae'r adeilad a'r ardaloedd tu allan yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Er hyn, mae lle yn gyfyng yn yr ardaloedd chwarae tu allan ar gyfer nifer y disgyblion. Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn elwa o'r ardaloedd dysgu dan do ac awyr agored sy'n cyfrannu'n dda at eu dysgu.

Mae'r dosbarthiadau wedi eu haddurno i ddarparu amgylchedd dysgu lliwgar a diddorol. Mae digon o adnoddau o ansawdd da sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?
--

Da

Arweinyddiaeth: Da

Mae arweinyddiaeth gydwysol y pennaeth yn effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth glir sydd wedi'i rhannu'n llwyddiannus gyda'r llywodraethwyr, staff, disgyblion a rhieni. Mae datblygiad a lles disgyblion yn ganolog i'r holl benderfyniadau.

Mae nifer o weithdrefnau da wedi eu rhoi ar waith ar gyfer codi safonau a hyrwyddo cynnydd trwy'r ysgol. Mae ffocws eglur ar ddatblygu rôl yr arweinyddion pwnc a defnydd effeithiol o ddata er mwyn codi safonau.

Mae disgrifiadau swydd cyfredol gan bob aelod o'r staff sy'n adlewyrchu eu rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn dîm profiadol sy'n defnyddio cyfarfodydd staff rheolaidd i drafod agweddau ar y ddarpariaeth ac i safoni gwaith disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn ac yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn gydwybodol. Maent yn cydweithio'n agos gyda'r cydlynwyr pynciau er mwyn cryfhau eu dealltwriaeth o ofynion y cwricwlwm a safonau cyrhaeddiad. Mae'r llywodraethwyr yn deall pwysigrwydd y broses hunanarfarnu ond nid yw eu rôl yng ngweithdrefnau monitro'r ysgol wedi datblygu'n llawn.

Mae'r ysgol yn talu sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol megis codi safonau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Mae'n hyrwyddo hyfedredd dwyieithog cynnar y disgyblion yn effeithiol iawn ac wedi rhoi egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ar waith yn llwyddiannus.

Gwella ansawdd: Digonol

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth glir o brif gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae systemau priodol ar waith ar gyfer arfarnu agweddau ar y ddarpariaeth a chynnydd y disgyblion. Maent yn cynnwys dadansoddi data, adolygu gwahanol agweddau o'r meysydd dysgu a cheisio barn disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi mireinio'r prosesau hunanarfarnu er mwyn defnyddio ystod ehangach o ffynonellau tystiolaeth uniongyrchol. Nid yw'r trefniadau wedi eu hymsefydlu'n ddigonol i fedru mesur eu heffaith.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn adnabod meysydd addas y mae angen eu gwella ac yn dylanwadu'n briodol ar flaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn ddogfen weithredol sydd yn arwain at ddatblygiadau cadarnhaol mewn agweddau megis y mentrau i godi safonau darllen, hybu lles disgyblion ac ehangu'r bartneriaeth gyda rhieni a'r gymuned. Fodd bynnag, nid oes monitro digon cyson i sicrhau bod pob blaenoriaeth ar gyfer gwella yn dylanwadu'n llawn ar ansawdd yr addysgu a dysgu.

Mae perthynas waith dda gydag ysgolion lleol yr ardal. Maent yn cydweithio'n agos i rannu arfer dda er mwyn gwella ansawdd a chodi safonau. Mae'r ysgol yn gweithredu'n effeithiol fel cymuned ddysgu ac mae llafur y gymuned ddysgu broffesiynol ar gyfer codi safonau darllen wedi dwyn ffrwyth.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol wedi meithrin ystod o bartneriaethau sy'n hyrwyddo dysgu a lles disgyblion yn effeithiol.

Mae partneriaeth gref gyda rhieni ac mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyson iddynt dderbyn gwybodaeth am gynnydd a datblygiad eu plant. Mae'r cynllunio agos er mwyn prynu adnoddau ychwanegol yn enghraifft o'r cydweithio effeithiol.

Mae cysylltiadau adeiladol gyda'r gymuned leol. Gwneir defnydd da o arbenigeddau pobl leol er mwyn ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion a chodi safonau. Mae'r disgyblion yn dysgu am y byd masnach yn effeithiol trwy gydweithio gyda busnes lleol sy'n gwerthu ffrwythau a llysiau. Mae aelodau o'r gymuned yn cyfrannu at sicrhau safonau darllen da trwy ymweliadau cyson i wrando ar ddarllenwyr.

Mae trefniadau pontio cadarn yn eu lle ar gyfer y plant sy'n trosglwyddo o'r cylch meithrin lleol ac i'r disgyblion sydd ar fin trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Mae'r trefniadau hyn yn gymorth da i'r disgyblion ymgartrefu'n gyflym yn eu hamgylchedd newydd.

Mae cysylltiadau da gyda'r ysgol uwchradd a'r ysgolion lleol yn hybu prosesau safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae'r bartneriaeth gydag ysgolion y clwstwr yn darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol effeithiol. Mae'r cydweithio agos yn helpu i gyflwyno mentrau newydd sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth. Mae'r partneriaethau gyda swyddogion ac asiantaethau'r awdurdod lleol yn cynorthwyo'r ysgol i ddatblygu ymhellach.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm yn llawn. Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol i greu amgylchedd deniadol ac ysgogol i'r disgyblion. Mae adnoddau eang ac addas yn yr ystafelloedd dosbarth a'r ardaloedd allanol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol yn weithredol ar gyfer athrawon a chymorthyddion yr ysgol. Mae'r staff i gyd yn elwa o hyfforddiant sy'n cael ei drefnu yn ôl anghenion unigolion a blaenoriaethau'r ysgol. Gwna'r athrawon ddefnydd priodol o'u hamser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu gwaith y disgyblion.

Mae'r pwyllgor cyllid yn monitro ac yn rheoli gwariant yn effeithiol iawn. Gwna'r ysgol ddefnydd da o'i chyllid er mwyn gwella'r ddarpariaeth a mynd i'r afael â'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu. Mae'r buddsoddiad sylweddol mewn offer TGCh newydd wedi cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion o fewn y maes.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Yn asesiadau 2012, roedd canran y disgyblion saith mlwydd oed a gyflawnodd deilliant 5 neu uwch mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Cymraeg a datblygiad mathemategol yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Roedd yn is mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth plant. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim yng Nghymru, mae canlyniadau'r ysgol mewn cyfuniad yn ei gosod ymhlith y 50% isaf.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd deilliant 6 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn is na'r teulu ym mhob maes dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 2, tros gyfnod o bedair blynedd, mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 neu uwch yn anwastad. Roedd canlyniadau 2012 yn uwch na chanlyniadau'r teulu o ysgolion tebyg mewn Cymraeg a Saesneg ond yn is mewn mathemateg a gwyddoniaeth. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim yng Nghymru, mae'r canlyniadau mewn cyfuniad yn ei gosod ymhlith y 50% isaf. Dros bedair blynedd, mae'r canlyniadau wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf.

Yn asesiadau 2012, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch, sef lefel 5, yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion ym mhob pwnc. Mae'r canran o lefelau 5 a gyflawnwyd dros gyfnod yn is o gymharu gyda chanlyniadau'r teulu ond yn dangos gwelliant.

Nid oes patrwm cyson yn y gwahaniaeth rhwng canlyniadau bechgyn a merched er bod amrywiaethau ar draws y pynciau. Yn asesiadau 2012, roedd merched yn cyflawni'n well at ei gilydd yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, roedd merched hefyd yn cyflawni'n well yn arbennig ar y lefelau disgwylidig. Roedd bechgyn yn cyflawni'n well ar y lefelau uwch mewn mathemateg a gwyddoniaeth gyda'r merched yn cyflawni'n well mewn Cymraeg a Saesneg.

Nid oes patrwm cyson yn y gwahaniaeth rhwng canlyniadau disgyblion sy'n hawlio cinio am ddim a'r rhai heb yr hawl. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion sy'n hawlio cinio am ddim yn perfformio'n dda yn gyffredinol o gymharu â'u cyfoedion. Yn asesiadau 2012 yn y Cyfnod Sylfaen, roedd disgyblion heb yr hawl i ginio am ddim yn perfformio'n well na'u cyfoedion. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni eu targedau.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd 39 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur. Mae pawb yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae bron pob un yn dweud eu bod yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn gofidio am rywbeth gyda'r rhan fwyaf o'r farn bod yr ysgol yn delio â bwlio yn dda. Mae pawb yn nodi eu bod yn cael eu haddysgu i fod yn iach ac mae bron pob un yn credu bod llawer o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae bron pob un o'r farn eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae llawer o'r farn bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith ysgol. Mae bron pob un o'r farn bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer i wneud eu gwaith. Nid yw tua hanner y disgyblion o'r farn bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi ond mae'r mwyafrif o'r farn bod plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac yn ystod yr egwyl ginio.

Ar y cyfan, mae'r ymatebion yn cynnig darlun cadarnhaol sy'n cymharu'n ffafriol gyda meincnodau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd. Mae canran y disgyblion sy'n anghytuno gyda'r datganiad bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cwblhawyd 30 o holiaduron gan y rhieni. Mae pawb yn fodlon â'r ysgol ac yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn gwneud cynnydd da. Mae bron pob un yn datgan bod eu plant yn setlo'n dda yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae pawb o'r farn bod yr addysgu yn dda. Dywedant fod yr athrawon yn disgwyl i'w plant weithio'n galed a bod yr ysgol yn darparu cymorth da i'r plant ag unrhyw anghenion penodol. Dywedant fod ymddygiad y disgyblion yn dda ac mae bron pob un yn dweud bod eu plant yn cael eu parchu ac yn cael eu trin yn deg. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Teimlant fod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o'r farn fod yr ysgol yn paratoi eu plant ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae bron pob un o'r farn fod yr ysgol yn cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau. Mae'r rhan fwyaf yn datgan eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion a'u bod yn derbyn gwybodaeth yn gyson am gynnydd eu plant. Mae bron pob un yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â thrafod unrhyw beth gyda'r ysgol. Mae pawb o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae'r ymatebion yn dangos lefel uchel o fodlonrwydd ymhlith rhieni sy'n cymharu'n dda gyda'r meincnodau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Dorothy Morris	Arolygydd Cofnodol
Rhian Jones	Arolygydd Tîm
Veronica Williams	Arolygydd Lleyg
Eirianwen Williams	Arolygydd Cymheiriaid
Elinor Thomas	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.